TIRLUN

# DIOGELWCH AC ACHUB YM MANNAU BRYCHEINIOG

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Daw'r dysgwyr i wybod am achub mynydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan arwain at ysgrifennu Trydar/X am achubiaeth ddiweddar gan un o'r timau - fel gohebydd newyddion. Maen nhw'n archwilio'r cyngor a roddir i gerddwyr mynydd ac yn gwneud sticer car i gynghori pobl i wisgo dillad addas wrth gerdded bryniau ym Bannau Brycheiniog. Mae dysgwyr yn dysgu am bwlïau fel modd o symud gwrthrychau trwm gyda chyn lleied o ymdrech â phosibl. Maen nhw'n gwneud eu pwli eu hunain ac yn ei brofi. Yn olaf, mae dysgwyr yn dylunio, gwneud a phrofi gwifren sip y tu allan ar gyfer tegan tebyg i ddol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd. Dulliau o adeiladu pwli: fesul grŵp - dau flwch grawnfwyd, rîl cotwm, pensiliau, clipiau papur, deg i bymtheg darn 10c neu wasieri metel mawr, tâp gludiog, llinyn, siswrn, pren mesur. Dull o adeiladu gwifren sip tegan: fesul grŵp - llinellau dillad, pwli bach, teis sip neu linyn neu fandiau rwber, stopwats neu amserydd a thâp mesur chwaraeon.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Er mwyn cyrchu'r raddfa ar Google maps, cliciwch ar 'View larger map'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM ACHUB MYNYDD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn ystyried achub mynydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y dasg hon.

### Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, rhoddir disgrifiad o achub mynydd, a geir ar wefan Achub Mynydd Cymru a Lloegr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y testun a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pryd ydych chi wedi gweld tîm achub mynydd? Ble oedd hyn?
- Ble ydych chi'n meddwl mae'r timau achub mynydd wedi'u lleoli ym Mannau Brycheiniog?
- Beth ydych chi'n ei wybod am achub mynydd? Sut ydych chi'n gwybod hyn?

## Sgrîn 4

Dangoswch fap o ganolfannau'r tîm achub mynydd yng Nghymru i'r dysgwyr a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa ganolfannau achub mynydd oeddech chi'n gwybod amdanynt?
- Pa un yw'r ganolfan achub mynydd agosaf i'ch hysgol? Sut wnaethoch chi amcangyfrif hyn?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, disgrifir trefniadaeth timau achub mynydd de Cymru a'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r timau achub mynydd: Aberhonddu, Bannau Canolog, Longtown neu'r Bannau Gorllewinol. Yna, gofynnwch iddynt chwilio ar y rhyngrwyd i ddarganfod...

- Pryd oedd y tro diwethaf i'r tîm hwn gael ei alw allan? Pam roedd angen i'r tîm helpu?
- Gyda pha dimau eraill y bu'r tîm hwn yn gweithio? Pam?
- Beth oedd canlyniad yr achub?

Atgoffwch nhw i wneud y canlynol:

*Cyn ymchwilio, meddyliwch...*

- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i'w defnyddio? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data meddyliwch...*

- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth/data, yn eich barn chi? Sut allech chi ddarganfod hyn?

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ysgrifennu Trydar/X am ganfyddiadau eu hymchwil - fel gohebydd newyddion. Atgoffwch nhw mai dim ond 280 nod sydd ganddyn nhw ar gyfer hyn.

TASG 2

# PAM BOD DIOGELWCH AR Y BRYNIAU A'R MYNYDDOEDD YN BWYSIG?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn y dasg hon yn archwilio'r cyngor a roddir i gerddwyr mynydd ac yn y pen draw yn gwneud sticer car ar gyfer cynghori pobl i wisgo dillad addas wrth gerdded mynyddoedd ym Mannau Brycheiniog.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod Achub Mynydd Cymru a Lloegr yn rhoi arweiniad ar ddiogelwch ar y bryniau a'r mynyddoedd, sy'n cynnwys:

**Cyn i chi gychwyn allan:** gwefrwch eich ffôn, cynlluniwch eich llwybr yn ofalus, edrychwch ar ragolygon y tywydd a gadewch fanylion am y llwybr y byddwch yn ei ddilyn (trwy ei gyfleu i rywun arall). Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod pob un o'r camau hyn yn bwysig?
- Beth allai ddigwydd os byddwch yn methu cymryd un o'r camau hyn?

## Sgrîn 4

Dyma ragor o'r arweiniad:

**Ar y bryn neu'r mynydd:** cadwch olwg ar y tywydd, cadwch y criw gyda'i gilydd, dylech fwyta'n dda trwy gydol y dydd a gwyliwch am arwyddion o hypothermia. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod pob un o'r camau hyn yn bwysig?
- Beth allai ddigwydd os byddwch yn methu cymryd un o'r camau hyn?
- Rhoddir cyngor hefyd i bobl sy'n cerdded ar eu pen eu hunain. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r cyngor hwn? Pam?
- Beth yn eich barn chi, yw'r risgiau ychwanegol i bobl sy'n cerdded ar eu pen eu hunain? Pam?
- Yn achos argyfwng ar y bryn neu fynydd, beth ddylech chi ei wneud, yn eich barn chi? Pam?

Gallech hefyd ychwanegu at y canllawiau hyn, e.e.

- Byddwch yn barod i droi'n ôl os bydd yr amodau'n anffafriol, hyd yn oed os yw hyn yn difetha antur sydd wedi ei gynllunio ers amser hir.
- Gadewch i'r rhai arafaf yn y criw, benderfynu ar y cyflymder a chymerwch ofal arbennig o'r cerddwyr ieuengaf, y gwannaf a'r lleiaf gwybodus mewn lleoedd peryglus.
- Cyn i chi ddechrau cerdded a thrwy gydol y dydd, cadwch eich lefelau egni yn uchel er mwyn gwneud y gorau o'ch diwrnod.
- Mae symptomau hypothermia yn cynnwys: dryswch, cryndod, blinder, edrych yn welw a diffyg cylchrediad yn y dwylo neu fysedd y traed. Mae tueddiad cryfach i blant a phobl hŷn ddioddef o hypothermia.

Y cyngor a roddir i'r rhai sy'n mynd allan ar eu pen eu hunain yw … byddwch yn ymwybodol o'r risg ychwanegol. Rhowch wybod i bobl am eich llwybr a phryd rydych yn disgwyl gorffen ac yna cadwch at eich llwybr, cyn belled ag y gallwch. Os bydd eich cynlluniau yn newid, rhowch wybod i bobl eraill hefyd.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i ddychmygu eu bod ar daith gerdded hir ar fryniau neu fynyddoedd ac mae un o'u grŵp wedi cwympo ac wedi brifo'i hun yn ddrwg. Yna, dylid trafod y cwestiwn canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Beth ddylech chi ei wneud, yn eich barn chi?

Gofynnwch i'r dysgwyr restru'r drefn y bydden nhw'n gwneud y pethau hyn yn y blwch a ddarperir.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr wirio eu rhestr yn ôl y cyngor a roddwyd gan y Gymdeithas Achub Mynydd, a ddarperir ar y sgrin hon.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar y cwis ynghylch pa rai o'r pethau sydd ar y rhestr y dylen nhw eu cymryd gyda nhw pan ym mynd i gerdded am bellter hir ar fryniau neu fynyddoedd.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen yr erthygl: A woman was pictured walking up Pen y Fan in the snow - wearing heeled boots – Wales Online (Saesneg yn unig). Yna, dylent drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble mae Pen y Fan? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam, yn eich barn chi, yr ysgrifennwyd yr erthygl?
- Pa fathau o ddillad anaddas sy'n cael eu crybwyll? Pam fod pob dilledyn yn anaddas?
- Ar gyfer pob un math o ddilledyn anaddas, beth ddylai'r person ei wisgo yn hytrach na'r dilledyn hwn?

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddylunio sticer i'w roi ar gar er mwyn cynghori pobl i wisgo dillad addas wrth gerdded bryniau neu fynyddoedd ym Mannau Brycheiniog. Dangosir rhai enghreifftiau o sticeri car. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa neges mae pob sticer yn ei chyfleu?
- Pam fod pob sticer yn siâp arbennig?
- Pa symbolau neu ddelweddau a ddefnyddir ar bob un o'r sticeri hyn?
- Pa mor effeithiol yw pob sticer? Pam?

## Sgrîn 10

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa eiriau allweddol allwn ni eu defnyddio ar ein sticer?
- Pa symbolau neu ddelweddau allwn ni eu defnyddio ar ein sticer?
- Sut bydd y delweddau a'r symbolau yn cyfleu ein neges?

Gofynnwch i'r dysgwyr nodi rhai syniadau ar gyfer eu sticer a thynnu llun rhai syniadau drafft.

## Sgrîn 11

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall maint eu sticer fod hyd at 15cm o hyd a 15cm o led.

Gan edrych ar eu syniadau am eiriau a symbolau neu ddelweddau, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa eiriau, symbolau a delweddau fydd yn cyfleu eich neges orau? Pam?
- Pa siâp ddylai ein sticer fod? Pam?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddrafftio eu dyluniad o fewn y siâp y maen nhw wedi penderfynu arno a gwneud yn siŵr ei fod yn ffitio o fewn y dimensiynau cywir.

Yna, dylent wneud eu sticer.

## Sgrîn 12

Ar sgrîn olaf y dasg hon, rhoddir cyfle i ddysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r rhain ar gyfer dechrau brawddegau a ddarperir, pan yn myfyrio ar y dasg: Deallais yn well pan...; Y peth oedd yn gymorth mawr i mi heddiw oedd...; Un peth a wnaethom heddiw a wnaeth i mi sylweddoli...; Er mwyn gwella, gallwn i...; Ar ôl darllen, dwi'n...; Gallwn i ddefnyddio'r strategaeth hon pan...; Ar ôl siarad â...; Y tro nesaf, gallwn i...; Y peth mwyaf anodd i mi oedd...; Un syniad/peth dwi'n dal ddim yn ei ddeall ydy...

TASG 3

# BETH YW PWLI?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddysgu am bwlïau fel dull o symud gwrthrychau trwm gyda chyn lleied o ymdrech â phosibl. Byddant yn gwneud eu pwli eu hunain ac yn ei brofi.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod timau achub mynydd yn defnyddio rhaffau a phwlïau i'w helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hanafu, a'u codi i ddiogelwch. Mae llun ar y sgrîn i ddangos hyn.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble ydych chi wedi gweld pobl yn defnyddio rhaffau o'r blaen? Ar gyfer beth oedd y rhaffau'n cael eu defnyddio?
- Ble ydych chi wedi gweld pwlïau'n cael eu defnyddio? Ar gyfer beth roedden nhw'n cael eu defnyddio? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth barau o ddysgwyr fod pwlïau yn beiriannau syml sy'n ei gwneud hi'n haws codi gwrthrychau.

Maent wedi'u gwneud o olwyn ac echel, gyda rhaff wedi'i lapio o amgylch yr olwyn.

## Sgrîn 6

Yma, mae ffotograff o graen yn disgrifio bod hon yn enghraifft gyffredin o system bwli. Defnyddir y rhain yn y diwydiant adeiladu i godi offer a defnyddiau trwm. Er enghraifft, codi brics a choncrit i'r lloriau uchaf wrth adeiladu nendwr.

## Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i ddylunio pwli sy'n gallu codi wasieri. Yna, dylent roi cynnig ar y pwli er mwyn gweld a yw'n gweithio. Os nad yw'n gweithio, gofynnwch iddynt ei ailddylunio fel ei fod yn gweithio. Rhoddir rhestr o offer. Unwaith y bydd y dysgwyr wedi dylunio eu pwli, gofynnwch iddyn nhw gymharu eu pwli nhw â phwlïau eraill pobl eraill yn y dosbarth.

Os bydd dysgwyr yn mynd yn cael trafferth, dyma rai cyfarwyddiadau:

- Gosodwch ddau flwch grawnfwyd i sefyll yn fertigol ac yn gyfochrog â'i gilydd ar fwrdd neu ddesg.
- Gwnewch ddau dwll yn wynebu ei gilydd, yn weddol agos at ben uchaf y blychau grawnfwyd (ar eu hwynebau mewnol), fel y gallwch chi wthio'r bensil trwy'r tyllau a bydd y blychau yn ei dal yn ei lle.
- Clymwch linyn i'r bensil a'i gwthio drwy'r tyllau yn y blychau grawnfwyd.
- Cysylltwch glip papur neu wasier fetel i ben arall y llinyn.
- Tynnwch tuag at i lawr ar y llinyn er mwyn codi'r llwyth (y clip papur neu'r wasier).

Sylwch sut mae'r pwli yn newid cyfeiriad y grym ac yn ei gwneud hi'n haws codi'r llwyth.

Cofiwch fod gan bwlïau sydd yn y byd go iawn rywfaint o ffrithiant, felly bydd angen i chi ddefnyddio ychydig o rym ychwanegol i'w oresgyn.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut allech chi wella eich pwli? Pam fyddai eich syniadau yn gweithio?
- Beth yw'r grymoedd sy'n gweithredu pan fydd eich pwli yn gweithio? I ba gyfeiriad mae'r grymoedd hyn yn gweithredu?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lunio diagram i ddangos y grymoedd sy'n gweithredu pan fydd eu pwli yn gweithio.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr sut mae pwli sefydlog sengl yn gweithio, fel y dangosir yn yr animeiddiad:

Y llwyth yw pwysau'r gwrthrych sy'n cael ei godi.

Yr ymdrech yw'r grym tynnu sydd ei angen i godi'r llwyth.

Mae'r ymdrech a'r llwyth yn rymoedd ac yn cael eu mesur mewn newtonau (N).

Yn y pwli hwn, mae grym yr ymdrech a grym y llwyth yn gyfartal.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fantais y mae'r pwli hwn yn ei roi i chi wrth geisio codi gwrthrych trwm?
- Ble fyddech chi'n dod o hyd i'r math hwn o bwli?

## Sgrîn 10

Ar y sgrin hon, ceir animeiddiad i ddangos sut mae un pwli symudol yn gweithio. Eglurwch fod y pwli hwn yn rhoi mantais fecanyddol ddelfrydol o 2. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr 'mantais mecanyddol ddelfrydol o 2'? Byddwch yn barod i egluro eich rhesymu.
- Ble fyddech chi'n dod o hyd i'r math hwn o bwli?
- Pa fath o bwli wnaethoch chi ei greu? Pam ydych chi'n meddwl mai'r math yna ydyw?

TASG 4

# DYLUNIO GWIFREN WIB

Eglurwch i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddylunio, gwneud a phrofi gwifren sip y tu allan ar gyfer tegan tebyg i ddol.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod pwlïau sefydlog sengl yn cael eu defnyddio mewn gwifrau gwib. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut olwg sydd ar wifren wib? Sut ydych chi'n gwybod?
- A ydych chi wedi bod ar wifren wib? Pryd? Sut brofiad oedd hwn?
- Pa nodweddion sy'n gwneud gwifren wib yn dda?
- Pa un yw'r wifren wib orau yn y byd? Sut allwch chi ddarganfod hyn?
- Sut gallwch chi egluro wrth y dosbarth pam mai dyma'r wifren wib orau?
- Ble ydych chi'n meddwl y byddai'r pwli mewn gwifren wib?

## Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddylunio, adeiladu a phrofi eu gwifren wib eu hunain ar gyfer tegan tebyg i ddol, yn yr awyr agored. Gwahoddwch nhw, mewn grwpiau bach, i feddwl am y meini prawf sy'n gwneud gwifren wib yn llwyddiannus. Yna, i restru cymaint o feini prawf ag y gallant. Gofynnwch i'r dysgwyr flaenoriaethu eu meini prawf llwyddiant a theipio eu pum maen prawf pwysicaf yn y blwch.

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd gan bob grŵp: ddarn o lein ddillad, pwli bach, offer clymu plastig ('zip ties'), llinyn neu fandiau rwber, stopwats neu amserydd a tâp mesur ar gyfer chwaraeon.

Gwahoddwch nhw i ddylunio eu gwifren wib, gan gofio am eu meini prawf llwyddiant.

Gofynnwch iddyn nhw dynnu llun o'u dyluniad a'i labelu gyda'r nodweddion sy'n ei helpu i gwrdd â'u meini prawf llwyddiant ac unrhyw fesuriadau.

Os ydy'r dysgwyr yn cael trafferth:

**Sut i wneud gwifren wib:**

1. Angori (clymu) pob pen i'r lein ddillad i lwyni/coed.
2. Cysylltu'r pwli i'r lein ddillad a chysylltu'r tegan i'r pwli.
3. Unwaith y bydd y tegan yn cyrraedd y gwaelod, gallwch ei dynnu ymaith.

**Sylwch:** *bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr eisiau mesur yr amser mae'n ei gymryd i'r ddol deithio o ben y wifren wib i'w gwaelod. Hefyd, efallai y bydd gan rai ddiddordeb yn y cyflymder. Er mwyn cyfrifo'r cyflymder, bydd angen iddynt fesur y pellter a deithiwyd gan y ddol a'r amser y mae'n ei gymryd i'r ddol deithio i lawr y wifren wib. Yna, dylid gwneud y cyfrifiad: pellter/amser – er mwyn cael ateb mewn m neu cm pob eiliad.*

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Wrth brofi eich gwifren wib, beth fyddwch chi'n ei fesur? Sut byddwch chi'n ei fesur?
- Sut byddwch chi'n gwneud eich profion o'r wifren wib yn rai teg?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod y mesuriadau a wnewch yn ddibynadwy – ac nad ffliwc ydyw?

## Sgrîn 7

Rhowch wybod i ddysgwyr y byddant yn gwneud y canlynol y tu allan, yn yr awyr agored:

- arbrofi gyda gosod eu gwifren wib
- rhoi sawl prawf ar y wifren wib
- addasu eu dyluniad er mwyn ei wella.

Eglurwch wrthyn nhw y gallent brofi eu gwifren wib drwy ddefnyddio llethr sydd yn uwch neu'n is. Gofynnwch iddyn nhw ystyried y cwestiynau hyn: Sut gallwch chi fesur y llethr? Pa offer arall fyddai ei angen arnoch chi?

## Sgrîn 8

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored, er mwyn iddynt adeiladu a phrofi eu gwifren wib.

## Sgrîn 9

Gwahoddwch bob grŵp o ddysgwyr wneud dyluniad gorffenedig o'u gwifren wib, gan gofio am eu meini prawf llwyddiant.

Gofynnwch iddynt labelu eu dyluniad gyda'r nodweddion sy'n ei helpu i fodloni pob un o'u meini prawf llwyddiant a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- I ba raddau mae eich dyluniad yn bodloni pob maen prawf llwyddiant?
- A oes unrhyw feini prawf llwyddiant eraill yr hoffech eu hychwanegu at eich rhestr wreiddiol? Os oes, beth ydyn nhw?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y prawf a wnaethant ar eu gwifren wib, a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut wnaethoch chi sicrhau bod eich profion yn deg?
- Sut wnaethoch chi sicrhau bod eich canlyniadau yn ddibynadwy?
- Sut mae'ch gwifren wib yn gweithio?
- Pa rymoedd sy'n cael eu defnyddio yn eich gwifren wib? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut allech chi wella eich gwifren wib? Pam fyddai eich syniadau yn gweithio?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau ar waelod y triongl a meddwl am y ffyrdd y gwnaethon nhw weithio er mwyn wneud eu gwifren wib: yn unigol, mewn grwpiau, ar-lein, gwaith pâr. Yna, dylent ystyried y strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt o blith y rhain: darllen, ymchwilio, tynnu lluniau, myfyrio ar waith blaenorol, dosbarthu, trafod, gwneud prototeipiau, defnyddio modelau, defnyddio enghreifftiau, gwneud rhestrau. Gallent hefyd awgrymu strategaethau eraill a ddefnyddiwyd. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa strategaethau a weithiodd orau. Bydd y wybodaeth olaf hon yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg yn y dyfodol.